# ADRODDIAD YR ARHOLWR

## LEFEL 3

## IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL: EGWYDDORION A CHYD-DESTUNAU

## IONAWR 2024

© WJEC CBAC Ltd.

Mae gwybodaeth am ffiniau graddau'r pwnc hwn ar gael ar wefan gyhoeddus CBAC:
https://www.wjecservices.co.uk/MarkToUMS/default.aspx?l=cy

**Dadansoddiad o'r Canlyniadau Ar-lein**

Mae CBAC yn darparu gwybodaeth i ganolfannau arholiadau ar wefan ddiogel CBAC. Cyfyngir y ddarpariaeth hon i staff mewn canolfannau yn unig. Y Swyddog Arholiadau yn y ganolfan sy'n rhoi'r caniatâd i'r staff yn y ganolfan gyrchu'r wefan hon.

**Adroddiad Ystadegol Blynyddol**

Mae'r Adroddiad Ystadegol Blynyddol (a gyhoeddir yn ystod ail hanner Tymor yr Hydref) yn cynnwys canlyniadau cyffredinol pob arholiad y mae CBAC yn ei weinyddu.

© WJEC CBAC Ltd.

**IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL: EGWYDDORION A CHYD-DESTUNAU**

**Lefel 3**

**Ionawr 2024**

**UNED 2: FFACTORAU SY'N EFFEITHIO AR DWF A DATBLYGIAD UNIGOLYN AR BOB CAM O'R RHYCHWANT OES.**

## Sylwadau Cyffredinol

Ar gyfer cyfres gaeaf 2024, roedd yn amlwg bod pob cwestiwn yn y papur yn hygyrch i'r ymgeiswyr a gadawyd llai o gwestiynau'n wag na'r hyn rydym wedi'i weld yn flaenorol.
At hynny, ychydig o dystiolaeth a welwyd o ymgeiswyr yn methu gorffen cwestiynau. Fodd bynnag, ar rai achlysuron, collodd rhai ymgeiswyr y ddau gwestiwn olaf. Dylid nodi bod yn rhaid i ymgeiswyr edrych ar bob tudalen o'r papur arholiad a sicrhau eu bod yn cadw llygad am y wybodaeth 'DIWEDD Y PAPUR', gan fod hyn yn cadarnhau bod y papur wedi gorffen.

Mewn rhai achosion, roedd tystiolaeth bod ymgeiswyr yn defnyddio pwyntiau bwled i ymateb i gwestiynau AA3, ond ymddengys fod hyn yn lleihau o gyfres i gyfres, sy'n dda i'w weld. Mae'n bwysig bod ymgeiswyr yn ymwybodol o'r geiriau gorchymyn allweddol a gaiff eu defnyddio mewn asesiadau, er enghraifft, ar gyfer cwestiynau AA2 a oedd yn defnyddio'r gair gorchymyn 'esboniwch', ni allai rhai ymgeiswyr roi rhesymau nac ystyried eu hateb yn fanwl. Byddai'n ddefnyddiol rhoi copi o eiriau gorchymyn yr asesiad i ymgeiswyr sy'n sefyll arholiadau allanol er mwyn iddynt allu paratoi'n llawn.

Lle roedd ymgeiswyr yn y bandiau marciau isaf, roedd hyn o ganlyniad i gwestiynau ar fodelau seicolegol ar y cyfan (2.2). Nid aethpwyd i'r afael â dau gwestiwn allweddol ar Bronfenbrenner a Maslow yn effeithiol, ac nid oedd llawer o'r ymgeiswyr yn ymwybodol o'r **cysyniadau sylfaenol** i gefnogi eu hateb. Pan ddefnyddiodd ymgeiswyr gysyniadau sylfaenol, ni wnaeth rhai sillafu'r rhain yn gywir.

Atebwyd cwestiynau a oedd yn canolbwyntio ar feini prawf asesu 2.1, ffactorau sy'n effeithio ar dwf a datblygiad unigolion, yn dda ar y cyfan. Fodd bynnag, ni allai rhai ymgeiswyr wahaniaethu rhwng yr agweddau gwahanol ar ddatblygiad, fel datblygiad corfforol, deallusol, emosiynol a chymdeithasol. Mae'n bwysig bod ymgeiswyr yn ymwybodol o'r gwahaniaethau hyn gan y gall hyn ychwanegu dyfnder i'w hatebion a gall ymgeiswyr gael eu hasesu ar agweddau penodol datblygiad yn y dyfodol. Er enghraifft, yn y cwestiwn am sut y gallai ACE effeithio ar ddatblygiad corfforol, deallusol a chymdeithasol plentyn, ni allai rhai ymgeiswyr roi ateb llawn oherwydd diffyg ymwybyddiaeth o un o'r agweddau ar ddatblygiad. Dylid annog ymgeiswyr i ganolbwyntio ar nodweddion cyfannol datblygiad ac ar agweddau cadarnhaol a negyddol ar ffactorau bywyd gwahanol hefyd.

Atebwyd cwestiynau a oedd yn canolbwyntio ar 2.3, dulliau o hybu ac amddiffyn gwydnwch, yn dda a gallai llawer o'r ymgeiswyr drafod dulliau gwahanol. Mae angen i rai ymgeiswyr archwilio dulliau o ymdrin â gwydnwch yn fanylach, ond roedd yn dda gweld ymgeiswyr yn trafod dulliau allweddol, fel gweithgareddau therapiwtig a gweithgareddau hamdden. Fodd bynnag, mae'n bwysig bod ymgeiswyr yn gallu esbonio'r dulliau hyn, er enghraifft, esbonio beth yw'r dull a rhoi enghraifft o sut y gellid defnyddio'r dull i gefnogi gwydnwch unigolion.

Mae'n bwysig bod canolfannau yn ystyried a yw llawysgrifen ymgeiswyr yn ddarllenadwy. Os nad yw llawysgrifen ymgeiswyr yn ddarllenadwy, dylid annog yr ymgeiswyr hyn i sefyll y fersiwn ar-sgrin o'r arholiad. Gellir annog (a threialu) y dull hwn ar gyfer pob myfyriwr gan ei fod yn cynnig manteision niferus i'r dysgwyr.

**Sylwadau am gwestiynau/adrannau unigol**

**Cw.1** (a) Gallai'r mwyafrif helaeth o'r ymgeiswyr nodi yr ystyrir bod ysgariad yn ddigwyddiad bywyd anrhagweladwy. Dywedodd rhai ymgeiswyr ei fod yn ddigwyddiad bywyd 'rhagweladwy' a oedd yn anghywir. Gwnaeth nifer bach o'r ymgeiswyr ysgrifennu'r ddau a nodi digwyddiad bywyd anrhagweladwy; Ar gyfer cwestiwn 'nodwch', mae'n bwysig bod ymgeiswyr yn rhoi ffaith gryno **neu'n** dewis o'r dewisiadau yn y cwestiwn, sef 'Nodwch a yw ysgariad yn cael ei ystyried yn ddigwyddiad bywyd *rhagweladwy* neu *anrhagweladwy*'. Roedd angen i ymgeiswyr nodi'n glir a oedd ysgariad yn rhagweladwy neu'n anrhagweladwy.

(b) Atebwyd y cwestiwn hwn yn dda iawn a gallai'r rhan fwyaf o'r ymgeiswyr enwi 'llencyndod' fel y cam bywyd y byddai Mia yn ei gyrraedd ar ôl plentyndod. Ni wnaeth rhai ymgeiswyr enwi'r cam bywyd penodol fel y caiff ei nodi yn y fanyleb ac felly ni roddwyd marciau iddynt, er enghraifft, plentyndod diweddarach. er na chafodd ymgeiswyr eu cosbi am hyn, byddai'n arfer da i ymgeiswyr ymgyfarwyddo â sut i sillafu geiriau allweddol. Gellid gwneud hyn drwy greu rhestr o dermau allweddol.

(c) Cafwyd atebion da iawn i'r cwestiwn hwn a llwyddodd llawer o'r ymgeiswyr i ennill marciau. Nododd rhai ymgeiswyr agweddau eraill ar ddatblygiad Mia y byddai'r ysgariad yn effeithio arnynt ac ni roddwyd marciau am y rhain. Roedd yn dda darllen y ffyrdd gwahanol y gallai ysgariad effeithio ar iechyd emosiynol Mia, gyda'r mwyafrif o'r ymgeiswyr yn canolbwyntio ar niweidio hunan-barch Mia, gan arwain at orbryder ac iselder posibl.

(ch) Roedd yn dda gweld y gallai ymgeiswyr roi amrywiaeth eang o effeithiau gwahanol ACEs. Llwyddodd rhai ymgeiswyr i gyrraedd y bandiau uchaf yn y cwestiwn hwn drwy allu trafod effeithiau corfforol, deallusol a chymdeithasol ACEs yn fanwl. Fodd bynnag, gwnaeth rhai ymgeiswyr ddiffinio cysyniad ACEs a oedd yn gwastraffu amser ac yn cyfyngu ar eu cyfle i drafod. Mae ateb da i gwestiwn 'trafodwch' yn archwilio mater yn fanwl, gan ystyried safbwyntiau gwahanol; roedd ymgeiswyr a enillodd y marciau uchaf yn gwybod am o leiaf ddwy o effeithiau ACE ar ddatblygiad cymdeithasol, deallusol a chymdeithasol. Nododd rhai ymgeiswyr y byddai plant sy'n dioddef ACE yn fwy tebygol o gael diagnosis o broblemau iechyd, ond methodd llawer â rhoi enghraifft benodol a'r rheswm pam y gallent wynebu mwy o risg, er enghraifft, oherwydd y straen a achoswyd gan yr ACE yn ystod eu plentyndod. Gwnaeth rhai ymgeiswyr ystyried effaith emosiynol ACEs ac felly ni roddwyd marciau iddynt am na ofynnwyd am hyn yn y cwestiwn.

(d) Ar y cyfan, ni lwyddodd llawer o'r ymgeiswyr i fodloni gofynion y cwestiwn hwn yn llawn, ac ni wnaeth rhai roi cynnig arno. Dim ond gwybodaeth a dealltwriaeth gyfyngedig a ddangoswyd gan rai ymgeiswyr o ddamcaniaeth Bronfenbrenner. Roedd yn braf gweld bod rhai ymgeiswyr yn ymwybodol o'r pum system allweddol yn ei ddamcaniaeth. Nododd nifer bach o'r ymgeiswyr fod pedwar cam i'r system, a oedd yn anghywir. Gallai'r ymgeiswyr a enillodd y marciau uchaf archwilio'r ddamcaniaeth yn fanwl a'i chymhwyso'n llawn i esbonio effaith tymor hir ACEs ar blentyn. Gallai llawer o'r ymgeiswyr ystyried effaith tymor hir ACEs ond ni allent gymhwyso damcaniaeth Bronfenbrenner yn gywir.

**Cw.2** (a) Ar y cyfan, roedd yr ymgeiswyr yn gallu rhoi rhai mathau o gyngor y byddai gweithiwr iechyd proffesiynol yn gallu ei roi i Misha, ond roedd diffyg datblygiad mewn llawer o atebion o ran esbonio sut y byddai'n gwella ei hiechyd a'i llesiant corfforol. Canolbwyntiodd rhai ymgeiswyr ar agweddau eraill ar ei hiechyd a'i llesiant, fel ei llesiant emosiynol/cymdeithasol, nad oeddent yn cael eu hasesu yn y cwestiwn hwn. Ni wnaeth rhai ymgeiswyr gymhwyso gair gorchymyn yr asesiad, sef 'esboniwch', yn effeithiol am na wnaethant gynnwys manylion neu resymau yn eu hateb. Er enghraifft, mewn ymatebion manylach, nododd ymgeiswyr y math o gyngor, enghraifft benodol a'r budd y byddai hyn yn ei gael o ran gwella iechyd a llesiant corfforol Misha. Gwnaeth rhai ymgeiswyr ailadrodd y cwestiwn yn eu hateb, er enghraifft, "felly byddai hyn yn gwella iechyd a llesiant corfforol Misha."

(b) Gallai rhai ymgeiswyr roi rhesymau clir pam y gall fod gan Misha arferion bwyta gwael, ond roedd rhai ymgeiswyr wedi drysu rhwng damcaniaethau Skinner a Pavlov ac ni allent gymhwyso damcaniaeth Pavlov yn gywir, gyda rhai wedi drysu rhyngddi â'r Ddamcaniaeth Dysgu Cymdeithasol. Gwnaeth rhai ymgeiswyr gymhwyso'r ddamcaniaeth ymddygiadol i gefnogi Misha i oresgyn ei harferion bwyta gwael, ond nid oedd y rhain yn ymwneud â'r cwestiwn dan sylw. Roedd yn braf gweld rhai ymgeiswyr yn cymhwyso'r term 'cyflyru clasurol' yn llawn at arferion bwyta gwael Misha. Gallai rhai ymgeiswyr roi ystod eang o gysyniadau allweddol a'u cymhwyso at arferion bwyta gwael Misha; gwnaeth ymgeiswyr yn y bandiau uchaf ddefnyddio termau fel 'ymateb heb ei gyflyru', 'ysgogiadau wedi'u cyflyru' ac 'ysgogiadau niwral' yn fedrus. Defnyddiodd rhai ymgeiswyr y term 'cyflyru gweithredol', sef cysyniad sy'n gysylltiedig â Skinner. Y cysyniad allweddol sy'n gysylltiedig â Pavlov yw '**cyflyru clasurol**'. Mae'n bwysig bod ymgeiswyr yn ymwybodol o gysyniadau sylfaenol sy'n gysylltiedig â modelau seicolegol allweddol.

(c) Cafwyd ymatebion cymysg i'r cwestiwn hwn. Ni allai rhai ymgeiswyr esbonio eu pwynt ac ni wnaethant nodi'n glir pa newidiadau y gallai Misha eu gwneud a allai effeithio ar ei hunangysyniad a'i gwydnwch. Pan ofynnir i ymgeiswyr esbonio, dylent roi rhesymau a manylion, gan ymdrin â'r cwestiwn 'pam'. Mae amrywiaeth eang o ddewisiadau ffordd o fyw yn y fanyleb y gallai ymgeiswyr fod wedi'u hystyried a fyddai wedi datblygu eu hymatebion ymhellach. Methodd rhai ymgeiswyr â dangos dealltwriaeth o hunangysyniad a gwydnwch a oedd yn allweddol i ennill marciau uwch. Roedd yn dda gweld rhai ymgeiswyr yn crybwyll y defnydd o dechnoleg, er enghraifft, 'Gallai Misha ymuno â grŵp cymorth ar-lein lle gall drafod ei phroblemau a dysgu oddi wrth eraill. Drwy wneud hyn, bydd yn dysgu strategaethau i adfer yn fwy effeithiol yn y dyfodol a theimlo ymdeimlad o gyflawniad drwy gymryd rhan yn y grwpiau hyn hefyd'.

**Cw.3** (a) Ar y cyfan, gallai'r rhan fwyaf o'r ymgeiswyr ennill rhywfaint o farciau yn y cwestiwn hwn. Roedd yn braf gweld ymgeiswyr yn trafod amrywiaeth o ddulliau, gan gynnwys nodi'r effaith gorfforol, ddeallusol, emosiynol a chymdeithasol bosibl y gall damwain ei chael ar dwf a datblygiad plentyn. Gwnaeth rhai ymgeiswyr gamddarllen y cwestiwn ac ystyried sut y byddai damwain yn effeithio ar ddatblygiad oedolyn, gan drafod diffyg incwm pan fyddai'r unigolyn i ffwrdd o'r gwaith. Dim ond nodi ei bod yn effeithio ar ddatblygiad corfforol, emosiynol a chymdeithasol wnaeth rhai ymgeiswyr, heb nodi'n llawn yr effaith benodol ar dwf a datblygiad plentyn o ganlyniad i ddamwain.

(b) Perfformiodd ymgeiswyr yn dda yn y cwestiwn hwn, a llwyddodd llawer i gyrraedd y bandiau marciau uchaf. Roedd yn dda iawn gweld bod rhai ymgeiswyr yn ymwybodol o strwythurau teuluol penodol. Er enghraifft, pe bai rhiant yn rhiant sengl, gall y ddamwain gael effaith ariannol sylweddol ar y rhiant gan mai dim ond un incwm sydd, ac efallai y byddai'n rhaid i'r rhiant gymryd amser i ffwrdd o'r gwaith i ofalu am y plant. Roedd yn bwysig bod ymgeiswyr yn gallu nodi'n glir yr effaith y byddai damwain plentyn yn ei chael ar y rhiant, ac yna esbonio'r effaith tymor hir. Ni allai rhai ymgeiswyr esbonio'r effaith tymor hir, a gwnaeth nifer lleiafrifol o'r ymgeiswyr gamddarllen y cwestiwn a chanolbwyntio ar yr effaith ar y plentyn. Gwnaeth rhai ymgeiswyr ailadrodd yr un pwyntiau ddwywaith felly ni ellir rhoi marciau iddynt ddwywaith. Nododd rhai ymgeiswyr y byddai'r rhieni yn teimlo'n ynysig ond ni wnaethant ehangu ar eu hateb drwy esbonio pam y gallai hyn arwain at ynysu, sef y posibilrwydd y byddai'n rhaid i rieni ganolbwyntio ar anghenion penodol eu plentyn a fyddai'n golygu na allent gymryd rhan mewn gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd. Dywedodd rhai ymgeiswyr y gallai rhieni newid eu dulliau rhianta, gan ddefnyddio termau fel 'awdurdodaidd' neu 'rieni sy'n hofran', gan bwysleisio'r effaith bosibl ar rieni o ganlyniad i ddamwain eu plentyn.

(c) Gallai'r mwyafrif o'r ymgeiswyr ennill rhywfaint o farciau yn y cwestiwn hwn, ond canolbwyntiodd rhai ymgeiswyr ar agweddau eraill, fel effaith damwain ar ddatblygiad emosiynol unigolyn.

**Cw.4** (a) Roedd y mwyafrif o'r ymgeiswyr yn gallu ennill rhai marciau llawn am y cwestiwn hwn. Mewn rhai achosion, roedd ymatebion yn gyffredinol, gan nodi bod cyflyrau sy'n cyfyngu ar fywyd o ganlyniad i gael eich geni gyda'r cyflwr. Er y gall hyn fod yn wir mewn rhai achosion, nid yw hyn yn cynrychioli *pob* cyflwr sy'n cyfyngu ar fywyd. Mae'n bwysig bod ymgeiswyr yn rhoi **ystyr craidd** cyflyrau sy'n cyfyngu ar fywyd, fel: 'marw'n gynnar neu leihau disgwyliad oes' er mwyn ennill marciau am y cwestiwn hwn. Roedd rhai atebion yn amwys ac yn sôn am 'unigolion yn marw' neu fod cyflyrau sy'n cyfyngu ar fywyd 'yn effeithio ar eu bywydau pob dydd'. Gellid cymhwyso hyn i unrhyw gyflwr felly ni roddwyd marciau am hyn. Roedd yn braf gweld nifer o ymgeiswyr yn rhoi amrywiaeth eang o enghreifftiau o gyflyrau sy'n cyfyngu ar fywyd a oedd yn ychwanegu manylder i'w hateb, gan eu galluogi i ennill marciau uwch.

(b) Ymdriniodd ymgeiswyr yn dda â'r cwestiwn hwn. Roedd yn amlwg eu bod yn ymwybodol o arferion crefyddau penodol, fel addoli wythnosol, gweddïo a darparu gweithgareddau cymdeithasol drwy wyliau penodol. Ar gyfer ymgeiswyr yn y bandiau uchaf, roedd atebion yn gysylltiedig â sut y gall arfer crefydd gefnogi'r teulu drwy gyfnodau anodd. Ni allai rhai ymgeiswyr ddisgrifio eu pwyntiau gan ddarparu rhestr o'r hyn sy'n digwydd pan fyddwch yn arfer crefydd a gafwyd yn unig. Roedd diffyg manylder yn yr atebion hyn.

(c) Atebwyd y cwestiwn hwn yn dda; ond ni allai rhai ymgeiswyr esbonio eu hatebion yn llawn. Roedd rhai atebion yn amwys ac yn or-syml, er enghraifft 'gan fod gan Joe gyflwr sy'n cyfyngu ar fywyd, gall hyn effeithio ar ei allu i wneud gwaith cartref'. Gan y gellid cymhwyso hyn i lawer o sefyllfaoedd, mae'n bwysig bod yn fwy penodol. Er enghraifft, efallai na fydd Joe yn gallu gwneud ei waith cartref oherwydd blinder o ganlyniad i'r feddyginiaeth y gall fod yn ei chymryd. Nododd llawer o'r ymgeiswyr y gall Joe golli llawer o'r ysgol, ond ni ystyriwyd hyn ymhellach ac roedd diffyg rhesymau o ran pam a sut y gallai hyn effeithio ar ei ddatblygiad deallusol. Mae'n bwysig bod ymgeiswyr yn gwbl ymwybodol o'r geiriau gorchymyn. Mewn cwestiynau â'r gair 'esboniwch', dylai atebion gynnwys manylion a pheth rhesymu. Gwnaeth rhai ymgeiswyr esbonio eu pwyntiau yn llawn gan ganolbwyntio ar gyflwr Joe sy'n cyfyngu ar fywyd, gan esbonio sut y gall hyn effeithio ar ei ddatblygiad deallusol.

**Cw.5** (a) Cafwyd ymatebion cymysg i'r cwestiwn hwn. Gallai llawer o'r ymgeiswyr ddiffinio ystyr natur a magwraeth, ond roedd rhai wedi drysu rhwng y termau neu gwnaethant ysgrifennu ateb cyffredinol heb wahaniaethu rhwng y termau. Gwelwyd rhai enghreifftiau da o gymhwyso gwybodaeth wrth sôn am ymddygiad Osian, a magwraeth yn arbennig. Roedd yn dda gweld rhai cysyniadau allweddol o fodelau seicolegol yn cael eu defnyddio, fel 'modelau rôl', 'dynwared' a 'geneteg'. Ysgrifennodd ymgeiswyr yn y bandiau uchaf drafodaethau da drwy gynnwys modelau seicolegol i ychwanegu at y ddadl o ran esbonio ymddygiad Osian **neu** werthuso'r ddadl natur/magwraeth a chymhwyso hyn at sefyllfa Osian. Gwelwyd gwerthusiadau ardderchog o'r ddadl natur gan gymhwyso i fôn y cwestiwn. Er enghraifft, gall 'natur' fod yn anghywir oherwydd pe bai o ganlyniad i eneteg, byddai holl aelodau teulu Osian yn droseddwyr, ond awgrymir mai rhai ohonynt sy'n gysylltiedig â gweithgarwch troseddol. Pan ofynnir i ymgeiswyr drafod, dylent ystyried y mater mewn ffordd fanwl a strwythuredig, gan ystyried gwahanol syniadau a safbwyntiau.

(b) Atebodd llawer o'r ymgeiswyr y cwestiwn hwn yn dda. Roedd yn braf gweld atebion dadansoddol a oedd yn ystyried sut y gallai cysylltiad Osian â throseddu effeithio ar ei dwf a'i ddatblygiad tymor hir. Talodd rhai ymgeiswyr wasanaeth gwefusau i gysylltiad Osian â throseddu, gan ystyried yr effaith tymor hir yn unig, er enghraifft, gall Osian golli'r ysgol ac felly ni fydd yn gwneud yn dda yn ei addysg. Dyma enghraifft o ateb sydd â diffyg dadansoddiad llawn oherwydd gellid ei gymhwyso i amrywiaeth eang o unigolion ac nid yw'n benodol. Roedd yn bwysig mai ***cysylltiad Osian â throseddu*** oedd ffocws ateb yr ymgeisydd gan fod hyn yn gysylltiedig â'i ddatblygiad tymor hir. Canolbwyntiodd nifer bach o'r ymgeiswyr ar sut y gallai cysylltiad Osian â throseddu effeithio ar ei blant. Nid dyma oedd y cwestiwn; roedd y cwestiwn yn canolbwyntio ar '***ei*** dwf a'i ddatblygiad tymor hir'. Roedd yn dda gweld atebion yn sôn am ddiagnosis o PTSD yn y dyfodol oherwydd ôl-fflachiau posibl o weithgarwch a thrais a oedd yn gysylltiedig â throsedd neu gangiau, a allai arwain at drawma emosiynol.

**(c)** Yn y rhan fwyaf o ymatebion, gallai ymgeiswyr ddarparu diffiniad cryno o rai dulliau gwahanol o hybu ac amddiffyn gwydnwch y gallai Osian eu mabwysiadu. Gallai'r rhai a ddatblygodd eu hatebion nodi amrywiaeth eang o ddulliau y gallai Osian eu defnyddio. Roedd yn braf gweld ymgeiswyr yn defnyddio termau fel 'therapiwtig' a 'gweithgareddau hamdden' yn eu hymatebion, ond byddai enghreifftiau penodol a oedd yn cyfeirio at Osian wedi bod yn fuddiol. Rhestrodd rhai ymgeiswyr y dulliau heb unrhyw ddisgrifiadau ac ni wnaeth rhai ymgeiswyr nodi'n glir sut y gallai'r dulliau a ddisgrifiwyd ganddynt gefnogi gwydnwch Osian.

**Cw.6** (a) Dim ond nifer bach o ymgeiswyr enillodd farciau llawn yn y cwestiwn hwn, ac ni wnaeth rhai roi cynnig arno. Roedd rhai ymgeiswyr wedi drysu rhwng 'anghenion ffisiolegol' ac 'anghenion seicolegol' sy'n gysylltiedig â Maslow; er na chafodd ymgeiswyr eu cosbi am hyn, mae'n bwysig eu bod yn ymwybodol o'r gwahaniaeth rhwng termau a chysyniadau sylfaenol pob damcaniaeth. Dangosodd rhai ymgeiswyr ddealltwriaeth sylfaenol o'r pum lefel ym mhyramid Maslow, ond cawsant anawsterau wrth geisio ei gymhwyso at sefyllfa bresennol Patrick. Gallai ymgeiswyr fod wedi ymdrin â'r cwestiwn hwn mewn nifer o ffyrdd gwahanol; gallent fod wedi cymhwyso'r anghenion gwahanol at sefyllfa bresennol Patrick neu gallent fod wedi ystyried pa effaith fyddai peidio â diwallu'r anghenion wedi'i chael ar Patrick. Roedd yn dda gweld y gallai rhai ymgeiswyr nodi'n gywir y byddai sefyllfa fyw bresennol Patrick yn golygu ei fod yn ei chael hi'n anodd diwallu ei anghenion ffisiolegol ac efallai na fyddai'n gallu bwyta nac yfed, ac na fyddai'n bodloni ei ofynion maeth o ganlyniad.

Yn yr un modd, roedd yn dda gweld y gallai rhai ymgeiswyr gymhwyso'r anghenion ffisiolegol cywir at Patrick pan oedd yn yr ysbyty, gan nodi'n glir y byddai'r ysbyty yn bodloni ei anghenion maeth drwy ddarparu bwyd a diod. Ar gyfer unrhyw gwestiwn sy'n ymwneud â modelau seicolegol, mae bob amser yn ddefnyddiol dechrau'r ateb drwy roi trosolwg o'r model. Er enghraifft, nodi bod pum lefel yn hierarchaeth Maslow a bod yn rhaid i unigolion fodloni pob un er mwyn hunanwireddu.

(b) Rhoddodd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr gynnig ar y cwestiwn hwn, er nad oedd rhai ymgeiswyr yn deall y gair gorchymyn 'crynhowch' yn llawn, sef dewis a chyflwyno'r prif bwyntiau heb fanylion ychwanegol. Dim ond rhestr o ddulliau a gafwyd gan rai ymgeiswyr, heb gyflwyno'r prif bwyntiau o ran sut y byddent yn cefnogi Patrick, er enghraifft, annog Patrick i fynd i fanc bwyd cymunedol ond nodi sut y byddai hyn yn hybu neu'n amddiffyn ei wydnwch. Byddai ychwanegu y byddai hyn yn rhoi egni iddo drwy faeth gwell ac yn gwella ei hwyliau yn bodloni'r gofynion yn llawn ar gyfer gair gorchymyn yr asesiad AA1 (crynhowch). Dim ond rhestr o ddulliau a gafwyd gan rai ymgeiswyr, ac ailadrodd y cwestiwn gan ddweud y byddai'n amddiffyn ei wydnwch ond heb roi unrhyw fanylion pellach i ddangos eu dealltwriaeth.

**Cw.7** (a) Gallai'r mwyafrif o'r ymgeiswyr a roddodd gynnig ar y cwestiwn hwn nodi ac esbonio effaith iselder ar dwf a datblygiad tymor hir Sioned. Gallai ymgeiswyr a sgoriodd farciau uwch yn y cwestiwn hwn roi rhesymau wedi'u datblygu dros sut y gallai iselder effeithio ar dwf a datblygiad tymor hir, gan ganolbwyntio ar ei helfennau cyfannol.

Rhai enghreifftiau o ymatebion wedi'u datblygu:

- Corfforol – gallai eich atal rhag gadael y tŷ oherwydd diffyg cymhelliant a allai effeithio ar allu Sioned i gael golau'r haul gan arwain at ddiffyg Fitamin D.
- Deallusol – mae'n effeithio ar ei datblygiad deallusol a gwybyddol oherwydd gall fod ar feddyginiaeth ar gyfer iselder a allai effeithio ar ei lefelau canolbwyntio sy'n effeithio ar gyfleoedd am swyddi yn y tymor hir.
- Emosiynol – lefelau isel o hunan-barch a hunangysyniad wrth iddi deimlo'n hunanymwybodol am sut mae'n edrych a allai ei hatal rhag gwneud cais am swyddi neu wneud gweithgareddau a allai ehangu ei gorwelion.
- Cymdeithasol – gall fynd yn ynysig yn gymdeithasol a heb gymhelliant i adael y cartref ac felly ni fydd yn treulio amser gyda'i theulu a'i ffrindiau, gan golli sgiliau cymdeithasol.

Ni wnaeth llawer o'r ymgeiswyr ystyried effaith gadarnhaol iselder ar dwf a datblygiad tymor hir Sioned. Er nad oedd angen gwneud hyn, mae'n arfer dda ystyried agweddau cadarnhaol a negyddol ar ddigwyddiadau bywyd. Trafododd lleiafrif o'r ymgeiswyr ddyddiau ysgol Sioned, ond nid oedd hyn yn berthnasol gan ei bod yn 35 oed. Mae'n bwysig bod ymgeiswyr yn darllen bôn y cwestiwn yn llawn.

(b) Roedd yn braf gweld enghreifftiau penodol o sut y gallai rhwydweithiau cymdeithasol gefnogi Sioned gyda'i hiselder. Er enghraifft, gall Sioned ddefnyddio fforwm sgwrsio (technoleg) lle gallai drafod ei hiselder ag unigolion sydd wedi cael afiechydon tebyg. Byddai hyn o fudd i Sioned drwy wneud iddi deimlo nad yw ar ei phen ei hun a'i helpu i ddysgu ffyrdd i oresgyn hyn. Gallai rhai ymgeiswyr ddisgrifio sut y gallai rhwydweithiau cymdeithasol helpu, ond ni wnaethant gysylltu eu hatebion yn benodol i sut y gallent ei helpu i ymdopi â'i hiselder. Er enghraifft, nododd ymgeiswyr y gallai ffrindiau fynd â Sioned allan am dro, ond yna ni wnaethant esbonio sut y gallai hyn ei helpu i ymdopi â'i hiselder.

**Crynodeb o'r pwyntiau allweddol**

- Pan fydd ymgeiswyr yn dysgu am 'natur a magwraeth' ym manyleb 2.2, byddai'n ddefnyddiol iddynt ddiffinio'r termau allweddol a'u cymhwyso at ystod eang o sefyllfaoedd. Dylent allu esbonio pa fodelau seicolegol sy'n gysylltiedig â natur a magwraeth. Gellid addysgu hyn fel gweithgaredd torri'r iâ defnyddiol wrth gyflwyno modelau seicolegol er mwyn canfod a yw'r ddamcaniaeth yn fwy perthnasol i natur neu fagwraeth neu'r ddau hyd yn oed.
- Dylai ymgeiswyr fod yn ymwybodol o **gysyniadau sylfaenol** sy'n gysylltiedig â phob model seicolegol allweddol gan fod hyn yn sail i'w gwybodaeth a'u dealltwriaeth ac yn eu galluogi i gynyddu eu marciau mewn cwestiynau.

- Mae defnyddio amrywiaeth o enghreifftiau bywyd go iawn o gyflyrau sy'n cyfyngu ar fywyd yn rhoi trosolwg cliriach i ymgeiswyr o ystyr cyflyrau sy'n cyfyngu ar fywyd; beth yw'r rhain; sut y caiff unigolion a'u teuluoedd eu cefnogi a'r effaith ar ddatblygiad cyfannol. Gellid cyfeirio ymgeiswyr at operâu sebon neu raglenni teledu i gefnogi eu dysgu a'u gwaith adolygu. Mae elusen Tŷ Hafan hefyd yn sefydliad defnyddiol i edrych arno - https://www.tyhafan.org/cy/amdanom-ni/
- Dylid rhoi'r geiriau gorchymyn i'r ymgeiswyr i'w helpu yn ystod sesiynau adolygu yn y dosbarth ac wrth adolygu gartref. Dyma ddolen ddefnyddiol i gefnogi ymgeiswyr: https://www.dysguiechydagofal.cymru/adnoddau/igcgp-geiriau-gorchymyn/
- Dylai ymgeiswyr sicrhau eu bod yn cwblhau'r papur arholiad yn llawn drwy gadarnhau eu bod wedi ateb pob cwestiwn. Gallant wneud hyn drwy wirio'n gyntaf faint o gwestiynau sydd ar dudalen flaen y papur arholiad ac, yn ail, cadw llygad am y geiriau DIWEDD Y PAPUR i gadarnhau bod y papur wedi gorffen ac nad oes rhagor o gwestiynau.

**DYDD IAU, 11 IONAWR 2024 – BORE**

**IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL: EGWYDDORION A CHYD-DESTUNAU**
**UNED 2: Ffactorau sy'n effeithio ar dwf a datblygiad unigolion ar bob cam o'r rhychwant oes**

1 awr 45 munud

| I'r Arholwr yn Unig | | |
|---|---|---|
| Cwestiwn | Marc Uchaf | Marc yr Arholwr |
| 1. | 19 | |
| 2. | 20 | |
| 3. | 11 | |
| 4. | 11 | |
| 5. | 18 | |
| 6. | 10 | |
| 7. | 11 | |
| Cyfanswm | 100 | |

***dylai ymgeiswyr gadarnhau eu bod wedi ateb pob cwestiwn ar y papur.**

DIWEDD Y PAPUR

***dylai ymgeiswyr gadw llygad am yr arwydd DIWEDD Y PAPUR**

**Lefel 3 IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL: EGWYDDORION A CHYD-DESTUNAU**

**Ionawr 2024**

**UNED 5: CEFNOGI UNIGOLION SY'N WYNEBU RISG I GYFLAWNI'R CANLYNIADAU MAEN NHW'N DYMUNO EU CAEL.**

**Sylwadau Cyffredinol**

Y gyfres hon oedd y cyfle olaf i'r Uned hon gael ei hasesu drwy arholiad allanol. Mae'r uned wedi newid i asesiad mewnol (Asesiad Di-arholiad) fel rhan o'r Lefel 3 Diploma Estynedig mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol newydd, i'w haddysgu gyntaf o fis Medi 2023 a'i hasesu gyntaf yn ystod Haf 2024.

Rhoddodd y mwyafrif o'r ymgeiswyr gynnig ar y rhan fwyaf o'r cwestiynau. Roedd cymysgedd o ymgeiswyr a oedd wedi'u paratoi'n dda a'r rhai hynny a oedd angen adolygu mwy er mwyn ymateb yn llawn i eiriau gorchymyn yr asesiad.
Roedd cwestiynau AA3 yn her i lawer ac ni allai rhai ymgeiswyr fynegi eu syniadau yn llawn, gan ddangos dealltwriaeth a dadl resymegol, sy'n ofyniad allweddol ar gyfer AA3.

Roedd gan yr ymgeiswyr beth dealltwriaeth o'r termau 'cam-drin' ac 'esgeuluso' ond nid oeddent yn hyderus wrth roi enghreifftiau penodol. Rhoddodd rhai ymgeiswyr ymatebion amwys â diffyg cywirdeb technegol, fel 'herio rhywun' a 'pigo ar'. Roedd hyn yn arbennig o amlwg yn y cwestiwn a ofynnodd pam y gall hil Hamza gyfrannu at gynyddu ei risg o ddioddef cam-drin corfforol a seicolegol.

Dylai fod gan ymgeiswyr sy'n astudio'r asesiad newydd ar gyfer Uned 5 wybodaeth a dealltwriaeth glir o'r gwahanol fathau o gam-drin ac esgeuluso y gall unigolion wynebu risg o'u dioddef.

Dangosodd ymgeiswyr beth gwybodaeth am arwyddion posibl esgeulustod y gall gweithwyr cymdeithasol arsylwi arnynt, ond byddai rhagor o wybodaeth am yr hyn a allai fod wedi achosi'r esgeulustod hwn neu effaith bosibl esgeulustod ar unigolion wedi cynyddu eu marciau.

Nid ymdriniwyd yn effeithiol â rhai ymatebion, yn enwedig cwestiwn 3 (c) a chwestiwn 5 (a). Yng nghwestiwn 3 (c), gofynnwyd i ymgeiswyr gynghori Jack ynglŷn â gofynion rheoleiddio ac arolygu ym maes gofal cymdeithasol a sut y gallai'r gofynion hyn gefnogi canlyniadau unigolion.

Ni allai'r mwyafrif o'r ymgeiswyr nodi ystyr rheoleiddio; byddai pwynt syml am reoleiddio sefydliadau a pham mae'n rhaid i unigolion gofrestru wedi rhoi peth gwybodaeth gyfyngedig i ymgeiswyr. Mae'r wefan ganlynol yn ddefnyddiol i'w hystyried wrth ymchwilio i'r pwnc hwn: - https://gofalcymdeithasol.cymru/cofrestru/pam-rydym-yn-cofrestru

Ychydig o wybodaeth a ddangoswyd gan rai ymgeiswyr mewn perthynas ag arolygu sefydliadau ym maes gofal cymdeithasol neu nid oeddent yn ymwybodol o sefydliadau fel Arolygiaeth Gofal Cymru a Gofal Cymdeithasol Cymru. Mae hyn yn rhan allweddol o adran 5.4.

Ar gyfer cwestiwn 5 (a), ni wnaeth ymgeiswyr ddarllen y cyflwyniad yn effeithiol. Roedd y cwestiwn yn yr adran hon yn gofyn i ymgeiswyr ddisgrifio sut byddai argaeledd adnoddau yn gallu effeithio ar Helen o ran cyflawni’r canlyniad y mae’n dymuno ei gael. Roedd Helen wedi cael diagnosis o PTSD a chafodd anafiadau pan oedd yn gwasanaethu yn y Fyddin, sy'n golygu ei bod yn gorfod defnyddio baglau. Un o'r canlyniadau roedd Helen yn dymuno ei gael oedd gweithio’n llawn amser. Ni wnaeth rhai ymgeiswyr unrhyw ymgais i esbonio sut y gallai argaeledd adnoddau effeithio ar Helen o ran cyflawni'r canlyniad y mae'n dymuno ei gael, gan ddangos fawr ddim ymwybyddiaeth o'r adran hon o Uned 5, os o gwbl.

Nid oedd yn ymddangos bod rheoli amser wedi effeithio ar berfformiad a oedd yn gadarnhaol gan fod hyn yn dangos datblygiad ers cyfres y llynedd.

Roedd cyfathrebu ysgrifenedig, atalnodi a sillafu yn rhesymol drwy gydol o gyfres hon, ond roedd tystiolaeth o sillafu, gramadeg a llawysgrifen wael ar rai sgriptiau.

**IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL: EGWYDDORION A CHYD-DESTUNAU**

**Lefel 3**

**Ionawr 2024**

**UNED 7: ANATOMEG A FFISIOLEG**

**Sylwadau Cyffredinol**

Dyma gyfres gyntaf yr uned Anatomeg a Ffisioleg ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol. Roedd yn braf gweld lefel y manylder a roddwyd gan rai ymgeiswyr yn eu papurau. Dewisodd rhai ymgeiswyr ateb ar y porth electronig a dewisodd llawer o rai eraill y fersiwn bapur.

Yn y gyfres hon yng ngaeaf 2024, roedd yn amlwg bod pob cwestiwn yn y papur yn hygyrch i'r ymgeiswyr a gadawyd llai o gwestiynau'n wag. Roedd hyd y papur yn hygyrch, a phrin oedd y dystiolaeth a welwyd o ymgeiswyr yn methu gorffen cwestiynau.

Mae'n bwysig bod ymgeiswyr yn gwbl ymwybodol o'r geiriau gorchymyn allweddol y gallent gael eu hasesu arnynt, er enghraifft, mewn cwestiynau ar gyfer AA2 a oedd yn defnyddio'r gair gorchymyn 'esboniwch', ni allai rhai ymgeiswyr roi rhesymau nac ystyried eu hateb yn fanwl. Byddai'n ddefnyddiol rhoi copi o eiriau gorchymyn yr asesiad i ymgeiswyr sy'n sefyll arholiadau allanol er mwyn iddynt allu paratoi'n well. Roedd llawer o'r ymgeiswyr yn gryno yn y cwestiynau a oedd yn gofyn am atebion mwy llawn, er enghraifft, cwestiynau â'r geiriau gorchymyn 'esboniwch' a 'disgrifiwch'. Dylid annog ymgeiswyr i ysgrifennu atebion llawn lle bo'r ferf orchmynnol yn gofyn am hynny.

Lle roedd ymgeiswyr yn y bandiau marciau isaf, roedd hyn o ganlyniad i gwestiynau ar ysmygu, y system endocrinaidd ac ocsimedrau pwls. Roedd atebion llawer o'r ymgeiswyr yn aneglur ac roedd diffyg cymhwyso gwybodaeth am ffisioleg a/neu effeithiau'r rhain ar lesiant.

Ar y cyfan, roedd y cwestiwn olaf yn heriol i'r ymgeiswyr ac ni wnaeth llawer ohonynt wneud y cysylltiad rhwng gweithgareddau corfforol a datblygu diabetes math 2.

Mae'n bwysig bod canolfannau yn ystyried a yw llawysgrifen ymgeiswyr yn ddarllenadwy. Os nad yw llawysgrifen ymgeiswyr yn ddarllenadwy, dylid annog yr ymgeiswyr hyn i sefyll y fersiwn ar-lein o'r arholiad.

**Sylwadau am gwestiynau/adrannau unigol**

**Cw.1** Ar y cyfan, ni allai'r mwyafrif helaeth o'r ymgeiswyr enwi'r mathau canlynol o feinwe cyhyrau a lleiafrif bach allai nodi eu swyddogaeth yn y corff. Llwyddodd rhai ymgeiswyr i nodi'r mathau cywir o feinwe cyhyrau, sef cyhyr y galon, sgerbydol a chyhyr anrhesog, ac ychydig iawn aeth ymlaen i nodi eu swyddogaethau.
Mae angen i ymgeiswyr ddeall y mathau o feinwe cyhyrau a'u swyddogaethau yn glir.

**Cw.2** (a) Gofynnodd y cwestiwn hwn i ymgeiswyr nodi dau fath o gelloedd, heblaw am fôn-gelloedd a chelloedd yr esgyrn. Ar y cyfan, gallai'r ymgeiswyr nodi amrywiaeth eang o gelloedd ac roedd yn braf eu gweld yn dangos dealltwriaeth yn y cwestiwn hwn.

(b) Ceisiodd llawer o'r ymgeiswyr roi disgrifiad sylfaenol o rôl celloedd yr esgyrn yn y system gyhyrsgerbydol a gwnaethant ddangos dealltwriaeth dda o'r ffaith bod celloedd yr esgyrn yn ffurfio esgyrn newydd ac yn ysgogi twf esgyrn. Soniodd rhai ymgeiswyr am y gwahanol fathau o gelloedd yr esgyrn e.e. osteocytau, osteoclastau ac osteoblastau. Gallai'r ymgeiswyr mwy abl ehangu ar eu disgrifiadau sylfaenol a rhoi lefel dda o fanylder yn eu hatebion, gan wneud cysylltiadau clir rhwng swyddogaeth celloedd yr esgyrn a thwf.

**Cw.3** (a) Ar y cyfan, llwyddodd ymgeiswyr i sgorio marciau am y cwestiwn hwn. Roedd yn dda gweld ymgeiswyr yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau, gan gynnwys nodi'r gwahanol fathau o gymalau. Cafwyd amrywiaeth o atebion i'r cwestiwn hwn, ond gwnaeth lleiafrif o'r ymgeiswyr enwi lleoliad cymalau a'u swyddogaeth yn anghywir. Rhoddodd rhai ymgeiswyr enwau cyhyrau hefyd a oedd yn anghywir ar gyfer y cwestiwn hwn. Mae angen annog ymgeiswyr i ddysgu enwau anatomegol cywir cymalau, e.e. ffibrog, synofaidd ac ati, er mwyn cyflawni.

(b) Atebodd ymgeiswyr y cwestiwn hwn yn dda ar y cyfan, a llwyddodd llawer i gyrraedd y bandiau uchaf. Roedd yn braf iawn gweld bod rhai ymgeiswyr yn ymwybodol o swyddogaethau penodol y system gyhyrsgerbydol. Nododd llawer o'r ymgeiswyr osgo a chefnogaeth fel nodweddion, ynghyd â symudiad. Ychydig iawn o'r ymgeiswyr wnaeth nodi cynhyrchu celloedd gwaed a storio mwynau. Gallai'r ymgeiswyr mwy abl ennill marciau llawn yn y cwestiwn hwn drwy roi esboniad da a oedd yn dangos dealltwriaeth gadarn o swyddogaeth y system gyhyrsgerbydol.

**Cw.4** (a) Roedd y mwyafrif o'r ymgeiswyr yn gallu ennill rhai marciau llawn am y cwestiwn hwn. Gallai llawer o'r ymgeiswyr nodi'r llengig a'r bronci yn gywir, ond yna nid oeddent yn sicr o leoliad y ffaryncs a'r thoracs. Nododd llawer o'r ymgeiswyr geudod trwynol yn anghywir ar y diagram.

(b) Ar y cyfan, llwyddodd yr ymgeiswyr i sgorio marciau am y cwestiwn hwn. Roedd yn amlwg bod gan yr ymgeiswyr wybodaeth gadarn am brif organau'r system resbiradol a gallent ddisgrifio taith anadl. Lle sgoriodd ymgeiswyr farciau uwch, gallent ymhelaethu ar y broses cyfnewid nwyol a ble mae'n digwydd ym muriau tenau'r alfeoli. Mae angen i ymgeiswyr ddatblygu gwybodaeth am y broses cyfnewid nwyol ymhellach mewn perthynas â chyfnewid carbon deuocsid ac ocsigen.

**Cw.5** Roedd y cwestiwn hwn yn rhoi cyfle i'r ymgeiswyr archwilio swyddogaeth y system endocrinaidd. Gallai'r ymgeiswyr mwyaf medrus archwilio swyddogaeth y system endocrinaidd yn llawn, gan roi amrywiaeth o ddisgrifiadau o rannau ac organau gwahanol y system endocrinaidd. Trafododd llawer o'r ymgeiswyr rôl y chwarren bitwidol, y thyroidau, yr adrenalau a'r parathyroidau. Llwyddodd ychydig o'r ymgeiswyr i ymdrin â'r hypothalamws a'i rôl. Trafododd y mwyafrif o'r ymgeiswyr y broses o gynhyrchu hormonau a'r ffordd y mae angen hyn er mwyn rheoli hwyliau, gan gynnwys sut y caiff hormonau eu rhyddhau i lif y gwaed.

**Cw.6** (a) Llwyddodd llawer o'r ymgeiswyr i ennill marciau llawn am y cwestiwn hwn, gyda chyfran dda o'r ymgeiswyr yn cyflawni yn rhan isaf y band marciau. Dewisodd llawer o'r ymgeiswyr ddisgrifio celloedd coch a chelloedd gwyn y gwaed. Gallent nodi'n gywir fod celloedd coch y gwaed yn cludo ocsigen i'r gwaed o'r ysgyfaint a'u bod yn fach ac yn hyblyg. Gallai'r ymgeiswyr a ddisgrifiodd gelloedd gwyn y gwaed ddisgrifio eu gallu i ymladd heintiau a'r ffordd y maent yn cylchredeg o fewn llif y gwaed wrth wneud hynny. Gwnaeth llai o'r ymgeiswyr fwrw ymlaen i ddisgrifio'r mathau niferus o gelloedd y gwaed. Aeth rhai ymgeiswyr ati i ddisgrifio plasma a'r ffordd y mae'n cludo gwaed o amgylch y corff. Ychydig iawn wnaeth gyfeirio at ei brif swyddogaeth, sef mai plasma yw'r rhan hylifol o'r gwaed.

(b) Gwnaeth bron pob ymgeisydd roi cynnig ar y cwestiwn hwn. Gallai'r mwyafrif o'r ymgeiswyr sgorio rhai marciau am y cwestiwn hwn, ond ni wnaeth rhai ymgeiswyr ymdrin â'r gair gorchymyn yn llawn, sef ‘trafodwch’. Dylid annog ymgeiswyr i roi digon o fanylion er mwyn ennill y marciau uchaf wrth drafod. Ni roddodd rhai ymgeiswyr gynnig ar y cwestiwn hwn. Gallai llawer o'r ymgeiswyr a roddodd gynnig ar y cwestiwn drafod prif swyddogaeth yr arennau, sef hidlo'r gwaed a gweithredu fel system hidlo. Gallent hefyd drafod rôl yr arennau'n llwyddiannus o ran cysylltu â'r bledren er mwyn gwaredu gwastraff fel troeth. Gwnaeth llawer o'r ymgeiswyr drafod yr arennau fel rhywbeth lluosog ac ni wnaethant grybwyll bod gan y corff ddwy aren.

**Cw.7** (a) Ni wnaeth y mwyafrif o'r ymgeiswyr a roddodd gynnig ar y cwestiwn hwn archwilio diben ocsimedr pwls yn llawn o ran monitro iechyd unigolyn. Esboniodd llawer y ffordd y mae'r ddyfais yn mesur pwls unigolyn a gallent esbonio beth yw pwls, ond ni allai pob ymgeisydd esbonio sut y caiff y ddyfais ei defnyddio i fonitro iechyd unigolyn. Yr ateb mwyaf cyffredin a roddwyd oedd mesur pwls, ac ychydig wnaeth ymhelaethu ar brif swyddogaeth y ddyfais, sef mesur lefelau'r ocsigen yn y gwaed. Rhoddodd rhai ymgeiswyr esboniadau manwl iawn gan gysylltu'r ddyfais â'r ymarferydd a'r ffordd y gall unigolyn ddefnyddio'r ddyfais i ganfod problemau a monitro'r rhain/cyflyrau presennol.

(b) Roedd y cwestiwn hwn yn gofyn i'r ymgeiswyr esbonio sut y gall cymryd mesuriadau corfforol helpu unigolyn i fonitro ei iechyd ei hun. Atebodd y mwyafrif o'r ymgeiswyr y cwestiwn hwn drwy awgrymu apiau a thechnoleg ffôn symudol, gyda rhai yn awgrymu dyfeisiau monitro pwysedd gwaed. Ateb arall a ddefnyddiwyd yn dda oedd defnyddio mesuriadau corfforol, er enghraifft, taldra, pwysau, anterth llif ac, mewn rhai achosion, cyfradd curiad y galon. Defnyddiodd yr ymgeiswyr mwyaf llwyddiannus ail hanner y cwestiwn i esbonio sut y byddai hyn yn helpu i nodi problemau a'u monitro. Esboniodd llawer o'r ymgeiswyr y byddai hyn yn helpu gweithwyr iechyd proffesiynol.

**Cw.8** (a) Gallai'r mwyafrif o'r ymgeiswyr drafod yn hyderus sut mae ysmygu yn cyfrannu at ddatblygu clefydau, gan ddefnyddio'r system resbiradol i archwilio hyn. Trafododd rhai ymgeiswyr effeithiau niweidiol ysmygu ar rannau cymhleth o'r system resbiradol, er enghraifft, yr alfeoli. Aeth llawer o'r ymgeiswyr ati i drafod ymhellach sut y gall hyn arwain at effaith ar y system gardiofasgwlar, gan drafod yn gywir sut y byddai hyn yn effeithio ar gyflenwad gwaed, rhydwelïau, gwythiennau a'r galon. Roedd yn dda gweld rhai ymgeiswyr yn trafod effeithiau fepio ac yn gwneud y cysylltiad rhwng ysmygu a fepio. Gwnaeth rhai ymgeiswyr drafod manylion na ellid rhoi marciau amdanynt, fel hanes ysmygu a chynlluniau i atal ysmygu. Er bod hyn yn wybodaeth ehangach berthnasol, nid yw'n deilwng o farciau mewn papur arholiad gwyddonol sy'n gofyn i'r ymgeisydd drafod effeithiau ysmygu ar systemau'r corff. Trafododd lleiafrif o'r ymgeiswyr effeithiau ysmygu ar y system atgenhedlol a'r system dreulio. Ychydig iawn drafododd effeithiau ysmygu ar gyflyrau iechyd tymor hir, fel asthma a Chlefyd Rhwystrol Cronig yr Ysgyfaint (COPD).

(b) Roedd yn ofynnol i'r ymgeiswyr esbonio sut mae maeth a hydradu yn gallu bod o fudd i ffisioleg ddynol. Gwnaeth y mwyafrif o'r ymgeiswyr a roddodd gynnig ar y cwestiwn hwn drafod effeithiau maeth ar systemau'r corff, gyda lleiafrif yn cysylltu hyn â hydradu. Roedd yr atebion yn anghymesur ar y cyfan, gydag anghydbwysedd o atebion a roddwyd gan yr ymgeiswyr o blaid maeth. Esboniodd rhai ymgeiswyr fanteision deiet iach, esboniodd rhai yr egwyddor pump y dydd a sut y byddai hyn o fudd i'r system dreulio. Cyfeiriodd llawer o'r ymgeiswyr at reoli pwysau a lefelau BMI, gydag ychydig iawn yn trafod o fewn hyn werth canran braster y corff yn hytrach na BMI fel dull llawer mwy effeithiol o reoli pwysau. Esboniodd rhai ymgeiswyr gydbwysedd egni a chysylltu â lefelau gordewdra pe na bai'r cymeriant egni yn gytbwys i'r unigolyn. Ychydig iawn o'r ymgeiswyr wnaeth esbonio cyflyrau sy'n cyfyngu ar fywyd, fel clefydau cardiofasgwlar, yn yr ateb hwn.
Yn yr un modd, ni lwyddodd llawer o'r ymgeiswyr i esbonio effeithiau hydradu gwael/da ar y corff. Ychydig iawn o'r ymgeiswyr esboniodd y ffordd y mae hydradu yn helpu'r system cylchrediad ac yn helpu i waredu cynhyrchion gwastraff o'r corff. Ni wnaeth llawer o'r ymgeiswyr esbonio rôl hydradu o ran cynnal tymheredd y corff.

**Cw.9** Hwn oedd y cwestiwn â'r atebion gwannaf ac ni wnaeth llawer o'r ymgeiswyr gysylltiadau effeithiol rhwng effeithiau diffyg gweithgareddau corfforol a'r systemau ffisiolegol. Ceisiodd y mwyafrif o'r ymgeiswyr ddisgrifio effeithiau diffyg gweithgareddau corfforol a sut y gall hyn gyfrannu at ordewdra. Roedd ail hanner y cwestiwn yn gofyn i'r ymgeiswyr asesu sut y byddai hyn yn effeithio ar ddiabetes math 2 ac yn cyfrannu ato. Ychydig iawn o'r ymgeiswyr wnaeth roi cynnig ar y rhan hon o'r cwestiwn yn llawn; mae angen i ymgeiswyr a chanolfannau sicrhau y rhoddir sylw llawn i'r ferf orchmynnol ym môn y cwestiwn.
Ychydig iawn o'r ymgeiswyr wnaeth asesu'r ffordd y gallai unigolyn leihau effeithiau diabetes math 2, gan felly wneud y cysylltiad y gellir ei wrthdroi. Ni wnaeth ychydig iawn o'r ymgeiswyr wneud unrhyw asesiadau na ffurfio barn o ran sut y gall diffyg gweithgareddau corfforol gyfrannu at ddatblygu diabetes math 2 drwy beidio â symud digon yn gorfforol. Dangosodd llawer o'r ymgeiswyr beth dealltwriaeth o sut mae diabetes math 2 yn datblygu ac ymateb y corff i inswlin.

**Crynodeb o'r pwyntiau allweddol**

- Dylai ymgeiswyr sicrhau bod ganddynt ddealltwriaeth gadarn o'r systemau ffisiolegol a'r ffordd y maent yn cysylltu â'i gilydd yn y corff dynol.
- Dylid rhoi'r geiriau gorchymyn i'r ymgeiswyr i'w helpu yn ystod sesiynau adolygu yn y dosbarth ac wrth adolygu gartref. Dyma ddolen ddefnyddiol i gefnogi ymgeiswyr: https://www.dysguiechydagofal.cymru/adnoddau/igcgp-geiriau-gorchymyn/

CBAC
245 Rhodfa'r Gorllewin
Caerdydd CF5 2YX
Rhif Ffôn 029 2026 5000
Ffacs 029 2057 5994
E-bost: arholiadau@cbac.co.uk
gwefan: www.cbac.co.uk